Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4696A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corrresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 8

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – ffi archwilio 19

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 20

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2024 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y [Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth/Awdurdod Iechyd Arbennig], a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Rwy'n adrodd ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Cynhaliwyd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Dyluniwyd fy rhaglen waith, felly, er mwyn sicrhau pobl Cymru yn y modd gorau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Gwnaethom barhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd rhywfaint o waith archwilio ar y safle pan oedd yn briodol gwneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig ei fyrhau pythefnos o'r flwyddyn flaenorol hyd at 15 Gorffennaf 2024. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 12 Gorffennaf 2024, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi'i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech gyfunol wych gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Mae ffocws a dull fy ngwaith archwilio perfformiad yn parhau i fod yn cyd-fynd â'r heriau ôl-bandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru ac fe'i cynhelir yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1] .

[1] Mae INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1)**. Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond heb ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau ymgymryd â'm gwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2024.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2024 a sut y cawsant sylw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe wnaethom ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Chwefror 2025. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio cyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Nid oedd fy ngwaith yn nodi unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad) fodd bynnag, fe wnes i ddod â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg er mwyn eu gwella.

13 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, ac rwy'n credu ei fod y tu hwnt i'w bwerau i'w wario, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra trafodiadau ariannol o fewn cyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd.

14 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i sicrhau balans ariannol a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- Er na chyflawnodd y Bwrdd Iechyd gyfanswm ei reolaeth ddiffyg na'i darged arbedion ar gyfer 2023-24, fe wnaeth gyflawni llawer mwy o arbedion nag mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, o ystyried bod ei sefyllfa

ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun ariannol tymor hwy ar frys sy'n canolbwyntio ar gyflawni arbedion rheolaidd o newid trawsnewidiol gwasanaethau, ac ymgorffori ei ddull arbedion ymhellach trwy ei Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd.

- Mae trefniadau llywodraethu bwrdd a phwyllgor y Bwrdd Iechyd yn sefydlog ac yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, o ystyried ei heriau ariannol a pherfformiad, mae datblygu strategaeth hirdymor newydd a darparu ei 'fap llwybr' tair blynedd yn hanfodol i alluogi'r sefydliad i drawsnewid gwasanaethau i ateb y galw nawr ac yn y dyfodol.
- Er gwaethaf ffocws clir ar wella llif cleifion o fewn y rhanbarth, mae nifer sylweddol o gleifion sy'n ffit yn feddygol yn dal mewn gwelyau ysbyty. Mae hyn yn parhau i gael sgil-effeithiau difrifol ar lwybrau gofal eraill y GIG ac yn creu risgiau i lesiant corfforol a meddyliol cleifion. Mae angen asesiadau mwy amserol o gleifion, dull gwrth risg llai o gynllunio rhyddhau a chymhwyso polisi rhyddhau yn fwy cyson. Mae heriau gweithlu a system TG yn parhau i fod yn rhwystrau allweddol y bydd angen i bartneriaid ganolbwyntio arnyn nhw ar sicrhau gwerth o'r buddsoddiadau y maent wedi'u gwneud ac i gyflawni'r gwelliannau y maent yn cydnabod sydd eu hangen.
- Bu cynnydd cymysg yn erbyn fy argymhellion blaenorol ar gynllunio rhyddhau gyda dim ond dau allan o saith yn cael eu gweithredu'n llawn.

16 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwilio cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o arddangos y stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd cywir ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Mae fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 a manylir ar y rhain ynghyd â sut y cawsant sylw yn **Atodiad 3 Arddangosyn 4**.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau , sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2023-24

20 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Nid oedd fy ngwaith yn nodi unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad) fodd bynnag, deuthum â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gwella.

21 Rhaid i mi adrodd am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Rheolwr Archwilio Ariannol y materion hyn ar 9 Gorffennaf 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau wedi'u cywiro |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Gwnaed nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft, a'r effaith net oedd cynnydd o £12,000 yn y diffyg. |
| Materion sylweddol eraill | Gosodais farn amodol ar reoleidd-dra a chyhoeddais adroddiad o sylwedd gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i sicrhau balans ariannol ar gyfer y tair blynedd 2021-22 i 2023-24. |

22 Cynhaliais adolygiad hefyd o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod yr wybodaeth cydgrynhoi parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2024 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

23 Mae fy archwiliad ar wahân o'r cyfrifon cronfeydd elusennol bron â chael ei gwblhau a disgwylir iddo gael ei adrodd i ymddiriedolwyr ar 22 Ionawr 2025.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael y pwerau i dderbyn incwm ac ysgwyddo gwariant. Mae fy ngwaith yn adolygu'r pwerau ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad yw'r Bwrdd Iechyd yn meddu ar y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

25 Pan nad yw Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi barn amodol ar reolaidd-dra.

26 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol am y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, ac rwy'n credu ei fod y tu hwnt i'w bwerau i'w wario, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra trafodiadau ariannol o fewn cyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd.

27 Yn 2023-24, roedd y Bwrdd Iechyd £49.766 miliwn dros ei ddyraniad adnoddau refeniw a thros y cyfnod tair blynedd 2021-22 i 2023-24, roedd y Bwrdd Iechyd £86.359 miliwn dros ei derfyn adnoddau refeniw cronnus o £5,007.912.

28 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y methiant i sicrhau balans ariannol a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

29 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau amlygu materion. Oherwydd y materion a nodir uchod, cyhoeddais adroddiad o sylwedd yn nodi'r manylion ffeithiol.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

30 Mae gennyf ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu effeithiolrwydd trefniadau arbedion costau'r Bwrdd Iechyd;

- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, effeithiol ac yn ddarbodus;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol, i gefnogi llif cleifion amserol allan o'r ysbyty ar draws y Rhanbarth;
- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion yn 2017 ar gynllunio rhyddhau.

31 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Adolygiad o drefniadau arbed costau

32 Archwiliodd fy adolygiad pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o nodi, darparu a monitro cyfleoedd arbedion costau cynaliadwy. Ystyriodd yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa ddiwedd blwyddyn 2023-24 y Bwrdd Iechyd ac amlygodd ble y gallai fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

33 Canfu fy ngwaith er **nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni cyfanswm ei reolaeth ddiffyg na'i darged arbedion ar gyfer 2023-24, roedd wedi cyflawni llawer mwy o arbedion nag mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, o ystyried bod ei sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun ariannol tymor hwy ar frys sy'n canolbwyntio ar gyflawni arbedion rheolaidd o newid trawsnewidiol gwasanaethau, ac ymgorffori ei ddull arbedion ymhellach trwy ei Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd.**

34 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau clir ar waith ar gyfer nodi a dadansoddi'r meysydd sy'n ysgogi ei gostau yn y tymor byr i'r tymor canolig. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i gostau cyflog staff (dros dro) amrywiol, Gofal Iechyd Parhaus, rhagnodi, ynni, oedi wrth drosglwyddo gofal, twf yn y galw am wasanaethau a heriau capasiti. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau data i ddadansoddi a nodi cyfleoedd arbedion. Mae hon yn elfen allweddol o waith Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd, sy'n cyfarfod bob pythefnos i ystyried cynnydd ar draws ffrydiau gwaith arbed diffiniedig (megis gweithlu, rheoli meddyginiaethau, ac ailgynllunio gwasanaethau) gan ddefnyddio data o ffynonellau gwybodaeth allanol, adolygiadau annibynnol ac archwiliadau. Mae'r cyfleoedd a nodwyd yn cael eu cynnwys yng Ngompendiwm y Bwrdd Iechyd[2], sy'n darparu storfa ganolog ar gyfer nodi a monitro cynnydd ar gyfleoedd arbedion cenedlaethol a lleol.

35 Mae Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd yn goruchwylio trefniadau'r sefydliad ar gyfer nodi ac asesu goblygiadau ansawdd cynlluniau arbedion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn datblygu mecanweithiau eraill i asesu effaith, risgiau a buddion ar gyfer cynlluniau arbedion sy'n gofyn am fuddsoddiad, fel ei Banel Cyn-

[2] Compendiwm yw storfa'r Bwrdd Iechyd ar gyfer syniadau a mentrau arbedion ac effeithlonrwydd sydd wedi'u tynnu o amrywiaeth eang o ffynonellau.

fuddsoddi. Er gwaethaf y prosesau diffiniedig hyn, mae anghysondeb yn y graddau y maent wedi cael eu defnyddio'n rheolaidd ar draws yr holl gynlluniau arbedion a nodwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cychwynnol cadarnhaol i ddatblygu cynllun ariannol tymor byr i ganolig. Ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwyodd fap llwybr tair blynedd â'r bwriad o gyflawni cyfanswm rheoli gwerth £13 miliwn erbyn 2025-26 a sicrhau balans ariannol erbyn 2026-27. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi buddsoddi mewn datblygu sgiliau a galluoedd ariannol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei arbedion. Fodd bynnag, mae lle i gynyddu hyfforddiant cyllid i reolwyr ac arweinwyr.

36 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer monitro'r ffordd y cyflawnir arbedion. Mae'r adroddiadau cyllid, sy'n sail i'w adroddiad ar arbedion, yn rhoi crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y prif ysgogwyr costau a manylion manwl ar berfformiad arbedion ar draws yr isadrannau a'r cyfarwyddiaethau yn atodiadau'r adroddiad. Fodd bynnag, mae angen canolbwyntio mwy ar gyflawni ac ar y rhwystrau sy'n rhwystro arbedion trawsnewidiol tymor hwy.

## Asesiad strwythuredig

37 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i gyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin â gwaddol pandemig COVID-19. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

38 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol ar gyfer cynllunio; a dull corfforaethol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

39 Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn destun cynnydd o dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru. Y sefyllfa ers mis Tachwedd 2023 yw bod y Bwrdd Iechyd wedi'i uwchgyfeirio i Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, a Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â llwybrau gofal brys ac argyfwng yn adran frys Ysbyty Athrofaol y Faenor.

### Dull corfforaethol o gynllunio

40 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

41 Canfu fy ngwaith fod dull y **Bwrdd Iechyd o ddatblygu a chyflwyno cynlluniau strategol yn eithaf effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r dull gweithredu eto yn ei alluogi i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n diwallu'r galw. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod ei ddatblygiad strategaeth hirdymor parhaus yn darparu'r sylfaen ac uchelgais ar gyfer cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau sy'n diwallu anghenion presennol ac yn y dyfodol.**

42 Mae Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd sy'n bodoli wedi helpu i lywio datblygiadau cynaliadwy gwasanaethau a seilwaith ategol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau perfformiad ac ariannol, sy'n golygu ei fod yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion iechyd y boblogaeth yn gynaliadwy. Mae datblygu strategaeth hirdymor newydd yn flaenoriaeth glir i'r Bwrdd Iechyd, y mae'n bwriadu ei chyhoeddi yn 2025. Bydd angen i hyn ystyried ac ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithiol a chynnwys adolygiad o amcanion llesiant y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn dangos trefniadau effeithiol ar y cyfan ar gyfer datblygu cynlluniau strategol sydd wedi'u hadeiladu ar ymgysylltiad da.

43 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i Gynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 gan nad oedd yn gallu cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy a chytbwys yn ariannol ar gyfer 2024-27 i Lywodraeth Cymru. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd rywfaint o her gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun blynyddol drafft yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddangos mwy o uchelgais ar gyfer gwella ac adfer gwasanaethau. Mae adroddiadau cynnydd chwarterol y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi gwella, ond weithiau mae'n anodd darllen adroddiadau ar gynnydd rhai o gynlluniau allweddol eraill y Bwrdd Iechyd a chael sicrwydd ohonynt.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

44 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol;
- goruchwylio perfformiad ariannol.

45 Canfu fy ngwaith fod **y Bwrdd Iechyd yn gwella ei reolaethau ariannol a'i fod yn canolbwyntio'n gryfach ar ddarparu gwerth ac arbedion. Fodd bynnag, mae ei heriau ariannol sylweddol a pharhaus yn awgrymu bod angen strategaeth ariannol hirdymor a manwl arno sy'n cyd-fynd â modelau gofal cynaliadwy.**

46 Er gwaethaf cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol allweddol ar gyfer 2023-24. Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddyraniad ychwanegol o £40.5

miliwn[3], a allai arwain at y cyllid hwn yn dod yn rheolaidd os bydd rhai amodau'n cael eu bodloni. Bydd hyn yn helpu'r Bwrdd Iechyd yn sylweddol yn y flwyddyn gyfredol a gallai helpu i leihau'r diffyg sylfaenol yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, oherwydd bod gofyn i'r Bwrdd Iechyd gyflawni sefyllfa adennill tair blynedd dreigl, bydd ei ddiffyg ariannol hanesyddol yn ei gwneud yn annhebygol y bydd yn cyflawni ei dargedau refeniw ariannol allweddol ar gyfer 2022-25.

47 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth y Bwrdd a phwyllgor o gynllunio ariannol. Er bod mwy o ymgysylltiad a goruchwyliaeth o gynllunio ariannol, mae'n amlwg bod angen datblygu cynllun adfer ariannol tymor hwy sy'n gysylltiedig â'r strategaeth hirdymor sy'n dod i'r amlwg a'r map llwybr ariannol tair blynedd.

48 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei strwythurau a'i adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni arbedion adrannol ac mae atebolrwydd cryfach a chydberchnogaeth am arbedion dan arweiniad y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd sy’n cyfarfod bob pythefnos.

49 Mae'r Bwrdd yn adolygu Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn aml ac mae ei bwyllgorau yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol yn briodol, gydag adroddiadau cyllid yn darparu digon o wybodaeth i alluogi craffu a goruchwylio priodol. Mae adroddiadau'n dryloyw ac yn cael eu cefnogi gan esboniad manwl gan yr arweinwyr gweithredol perthnasol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael ystod eang o sicrwydd ar gydymffurfiaeth ariannol, y rhaglen archwilio mewnol a gwaith gwrth-dwyll. Fodd bynnag, gellid cryfhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddyd Ariannol Sefydlog a monitro gweithredoedd tendro sengl.

## Tryloywder bwrdd, effeithiolrwydd a chydlyniant

50 Roedd fy ngwaith yn ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Fe wnes i roi sylw arbennig i’r canlynol:

- tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd
- trefniadau i gefnogi dull o gynnal busnes y Bwrdd
- strwythur y Bwrdd a'r pwyllgor, busnes, cyfarfodydd a llif sicrwydd
- ymrwymiad y Bwrdd i glywed oddi wrth staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
- sgiliau’r Bwrdd, profiadau, cydlyniant ac ymrwymiad i wella

51 Canfu fy ngwaith **er gwaethaf trefniadau rhesymol effeithiol dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu nifer y troeon diogelwch cleifion gan arweinyddion, a gwella adroddiadau cadeiryddion pwyllgorau i'r Bwrdd.**

52 Mae'r Bwrdd a strwythur y pwyllgor yn gweithio'n dda ar y cyfan. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i weithredu'n dryloyw gyda thrafodaeth agored ar heriau allweddol y Bwrdd Iechyd. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnal trafodaethau agored a

[3] Mae £9.5 miliwn yn gylchol a bydd £31 miliwn yn gyllid cylchol os yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r amodau a nodir yn ei lythyr dyrannu.

gonest ar heriau perfformiad, cyllid ac ansawdd y Bwrdd Iechyd. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda ac mae trefniadau rhesymol effeithiol ar waith i gefnogi llif sicrwydd o bwyllgorau i'r Bwrdd ac atgyfeirio gwybodaeth rhwng pwyllgorau. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau i bwyllgorau uwchgyfeirio materion yn ffurfiol i'r Bwrdd.

53 Mae papurau Bwrdd a phwyllgor yn gyffredinol yn glir ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu capasiti o fewn y Tîm Llywodraethu Corfforaethol eleni, sydd wedi galluogi gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Fframwaith Rheoli Risg newydd a diweddaru polisïau pwysig eraill. Mae'n amcangyfrif bod tua 55% o'i bolisïau wedi dyddio, fodd bynnag, mae gwaith wedi'i dargedu yn mynd rhagddo i unioni'r sefyllfa ac i bennu'r statws a'r angen am yr holl bolisïau hyn.

54 Mae'r Bwrdd yn gydlynol ac wedi ymrwymo i welliant parhaus, gyda chyfleoedd cynefino a hyfforddi da i aelodau'r Bwrdd. Mae gan y Bwrdd gnewyllyn sefydlog o Aelodau Annibynnol gyda llinellau cyfathrebu ac ymwybyddiaeth dda o rolau a chyfrifoldebau priodol ymhlith ei aelodau. Mae hefyd yn parhau i ddangos ymrwymiad cadarnhaol i glywed oddi wrth staff a chleifion. Fodd bynnag, mae angen iddo wella Troeon Diogelwch Cleifion gan Arweinwyr. Rhwng mis Mai 2023 a mis Hydref 2024, dim ond traean o'r ymweliadau a drefnwyd ymlaen llaw a gynhaliwyd.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

55 Ystyriodd fy ngwaith pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull gweithredu corfforaethol cadarn i reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer y canlynol:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau;
- tracio argymhellion.

56 Canfu fy ngwaith **er bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau sicrwydd ac mae ei ddull rheoli perfformiad yn gwella, mae angen rhagor o waith.**

57 Er gwaethaf ffocws parhaus y Bwrdd Iechyd ar fireinio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, mae angen i'r Bwrdd gysylltu ei risgiau strategol yn gliriach â'r amcanion strategol yn ei Gynllun Blynyddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei ddull risg strategol drwy ymgymryd â mapio sicrwydd a nodi'r sicrwydd sydd ei angen arno ar gyfer pob risg strategol.

Mae dull y Bwrdd Iechyd o reoli perfformiad, atebolrwydd a goruchwylio yn gwella. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd ym mis Medi 2023, ac mae'n dangos ei fod yn defnyddio'i ddull priodol o adolygu ac uwchgyfeirio gwasanaethau (neu isgyfeirio) yn seiliedig ar eu perfformiad.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â threfniadau rhesymol effeithiol ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn archwilio mewnol, archwilio allanol ac argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

## Gofal brys ac argyfwng

58 Archwiliodd fy ngwaith agweddau gwahanol ar y system gofal brys ac argyfwng sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty, cynnydd yn erbyn fy argymhellion cynllunio rhyddhau blaenorol, a threfniadau ar gyfer rheoli'r galw. Disgwylir i'm gwaith ar drefniadau ar gyfer rheoli'r galw gael ei adrodd ym mis Mai 2025 ac felly bydd yn cael ei gofnodi yn Adroddiad Archwilio Blynyddol y flwyddyn nesaf.

### Llif cleifion allan o'r ysbyty

59 Archwiliodd fy adolygiad rhanbarthol pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid gwasanaethau cymdeithasol drefniadau effeithiol i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amserol. Roedd yn canolbwyntio ar raddfa'r her, a'r ffactorau sy'n effeithio ar lif effeithiol ac amserol allan o'r ysbyty. Roedd fy ngwaith hefyd yn ystyried y camau sy'n cael eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid statudol, gan gynnwys drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a beth arall y gellir ei wneud i leihau rhai o'r heriau sy'n cael eu profi ar hyn o bryd gan y system iechyd a gofal cymdeithasol.

60 Canfu fy ngwaith**, er gwaethaf ffocws clir ar wella llif cleifion yn y rhanbarth, fod nifer sylweddol o gleifion sy'n ffit yn feddygol yn parhau i fod mewn gwelyau ysbyty. Mae hyn yn parhau i gael sgil-effeithiau difrifol ar lwybrau gofal eraill y GIG ac yn creu risgiau i lesiant corfforol a meddyliol cleifion. Mae angen asesiadau mwy amserol o gleifion, dull gwrth risg llai o gynllunio rhyddhau a chymhwyso polisi rhyddhau yn fwy cyson. Mae heriau gweithlu a system TG yn parhau i fod yn rhwystrau allweddol y bydd angen i bartneriaid ganolbwyntio arnyn nhw i sicrhau gwerth o'r buddsoddiadau y maent wedi'u gwneud a chyflawni'r gwelliannau y maent yn cydnabod sydd eu hangen.**

61 Am y 12 mis hyd at, a chan gynnwys mis Chwefror 2024, roedd 250 o gleifion meddygol ffit ar gyfartaledd yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd y gohiriwyd eu rhyddhau sy'n cyfateb i 55,685 o ddiwrnodau gwely a gollwyd a cholli adnoddau posibl o £27.8 miliwn. Mae'r effaith ganlyniadol ar lif cleifion mewn ysbytai a'r system gofal brys ac argyfwng yn sylweddol, gydag amseroedd aros mewn adrannau brys a throsglwyddiadau ambiwlans yn methu â chyrraedd targedau cenedlaethol. Ym mis Chwefror 2024, collwyd dros 3,000 o oriau ambiwlans oherwydd oedi wrth drosglwyddo, a'r cyfartaledd aros o fewn adran frys y Bwrdd Iechyd oedd 8.5 awr.

62 Mae nifer o ffactorau yn cyfrannu at oedi rhyddhau. Mae cymhlethdod a chyfaint y galw yn cynyddu yn unol â phoblogaeth sy'n heneiddio, ond gall y pwysau waethygu trwy fod â dull gwrth risg rhyddhau cleifion neu oedi wrth eu rhyddhau. Mae capasiti'r gweithlu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn her i'r rhanbarth, gan effeithio ar asesiadau ar y cyd a chlinigol, er bod arosiadau ar gyfer asesiadau

gofal cymdeithasol yn llai o broblem nag yw mewn llawer o rannau eraill o Gymru, ac mae capasiti'r sector gofal ar draws y rhanbarth yn ateb y galw yn gyffredinol.

63 Mae adnoddau ariannol yn cael eu targedu i gefnogi llif cleifion gyda chanlyniadau cadarnhaol, er bod gallu'r partneriaid i sicrhau arian cyfatebol yn fwyfwy heriol. Mae goruchwyliaeth a chraffu clir ar gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i wella llif cleifion, er y gellid gwneud mwy i gasglu adborth cleifion a defnyddwyr gwasanaethau a goruchwylio cydymffurfiaeth â pholisïau rhyddhau cyfredol. Fodd bynnag, er bod partneriaid rhanbarthol yn cydnabod yn glir y problemau sy'n gysylltiedig â rhyddhau, nid yw maint yr oedi wrth ryddhau cleifion ar draws y rhanbarth wedi lleihau'n sylweddol.

## Cynllunio rhyddhau: diweddariad ar gynnydd

64 Wrth gynnal fy adolygiad rhanbarthol o drefniadau i gefnogi llif cleifion, rwyf hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin â'm hargymhellion blaenorol yn 2017 yn ymwneud â chynllunio rhyddhau.

65 Canfu fy ngwaith fod **cynnydd cymysg wedi bod yn erbyn fy argymhellion blaenorol**. Gwnaeth fy adroddiad yn 2017 bedwar argymhelliad a oedd yn nodi saith cam gweithredu penodol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Gan nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn yr argymhellion hyn, canfu fy ngwaith dilynol:

- nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud yn erbyn un o'r camau gweithredu;
- mae'r gwaith yn parhau yn erbyn pedwar o'r camau gweithredu;
- mae dau o'r camau gweithredu wedi eu rhoi ar waith.

66 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu offer ategol ar gyfer rhyddhau, ond nid yw'r rhain wedi'u datblygu gyda phartneriaid ac mae angen gwella'r gwaith o gyfleu a monitro'r offer. Er enghraifft, mae wedi datblygu polisi rhyddhau ond mae wedi colli'r cyfle i ddatblygu dull integredig ar draws partneriaid. Gwelais ganllawiau clir yn nodi pryd y dylid defnyddio cludiant cleifion. Fodd bynnag, mae diffyg ymwybyddiaeth o'r polisi archebu cludiant, ac mae cyfleu amseroedd aros a ragwelir yn parhau i ddibynnu ar drefniadau lleol.

67 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella ei hyfforddiant cynefino staff mewn perthynas â rhyddhau ond mae angen iddo fynd ymhellach i wella hyfforddiant gloywi ac ymgorffori hyfforddiant ar y cyd â phartneriaid eraill. Mae rhaglen gynefino gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y polisi rhyddhau, a darperir hyfforddiant cynllunio rhyddhau i bob nyrs sydd newydd gofrestru, ynghyd â gwiriadau cymhwysedd a hyfforddiant ad-hoc ar gyfer dechreuwyr newydd. Fodd bynnag, effeithiwyd ar raglen hyfforddiant gloywi o ran cynllunio rhyddhau y Bwrdd Iechyd gan y pandemig, ac mae angen rhagor o waith i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws pob safle ysbyty.

68 Nid oes gan staff fynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch amseroedd aros er mwyn i asesiadau neu wasanaethau anghenion ddechrau, er bod enghreifftiau o waith integredig cadarnhaol sy'n darparu gwybodaeth fesul achos. Hefyd, nid yw llawer o staff yn ymwybodol o'r ystod gyflawn o wasanaethau yn y gymuned a all

gefnogi cynllunio rhyddhau a'r amseroedd aros cysylltiedig er mwyn i'r gwasanaethau hynny ddechrau.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2024.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2024 |
| Atodiad i'r Adroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon | Hydref 2024 |
| Archwilio Cronfeydd Elusennol, Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Barn ar y Datganiadau Ariannol | Ionawr 2025 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2024 | Rhagfyr 2024 |
| Adolygiad o Drefniadau Arbedion Costau | Rhagfyr 2024 |
| Gofal heb ei drefnu: Llif allan o'r ysbyty | Ionawr 2025 |
| Cynllunio Rhyddhau: Diweddariad ar Gynnydd | Ionawr 2025 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2024 | Ebrill 2024 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2024 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a thestunau'r sector cyhoeddus. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad yn dal ar y gweill**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adolygiad o Lywodraethu Ansawdd | Mawrth 2025 |
| Adolygiad o Adfer Gwasanaethau Gofal a Gynlluniwyd | Mawrth 2025 |
| Gwasanaethau gofal llygaid | Ebrill 2025 |
| Gofal Brys ac Argyfwng – Trefniadau ar gyfer Rheoli Galw | Mehefin 2025 |
| Adolygiad o Drawsnewid Digidol | Mehefin 2025 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2024 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £454,611 (ac eithrio TAW). Fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail fod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, yw y bydd ad-daliad ar waith y cyfrifon. Mae hyn yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyfarwyddwr Cyllid ar ôl ei gwblhau.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2024 yn nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol a/neu afreoleidd-dra ar gyfer archwilio cyfrifon 2023-24 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd;<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gwblhawyd. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Dyletswydd Ariannol: mae'r sefyllfa ym mis 11 yn dangos diffyg hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn o £47.6 miliwn a diffyg diwedd blwyddyn a ragwelir o £49.9 miliwn sy'n fwy na chyfanswm rheoli cyhoeddedig y Gweinidog. Mae hyn, ynghyd â'r alldro ar gyfer 2021-22 a 2022-23, yn rhagweld diffyg tair blynedd o £86 miliwn.<br>Pan fyddwch yn methu'r ddyletswydd ariannol hon, byddwn yn rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant ac yn cyhoeddi barn amodol ar eich rheoleidd-dra. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24 a'r sefyllfa gronnol tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2024;<br>• cynnal profion ar feysydd o'r datganiadau ariannol sy'n cynnwys dyfarniadau, megis croniadau diwedd y flwyddyn i sicrhau bod trafodiadau wedi'u hadrodd yn y cyfnod adrodd ar gyfrifyddu cywir;<br>• ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro perthnasol dros y tair blynedd. | Adolygodd fy nhîm archwilio drafodiadau diwedd blwyddyn, yn enwedig croniadau a thorbwynt. Ni chododd unrhyw faterion o'r gwaith a wnaed.<br>Dewisais roi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn esbonio'r methiant i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd a'r amgylchiadau a oedd yn gyfrifol am hyn. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
| --- | --- | --- |
| O 1 Rhagfyr 2023, mae'r Gofrestr Colledion a Thaliadau Arbennig (LaSPaR), a ddefnyddir i gyfrifo'r colledion a llawer o'r balansau darpariaethau yn y cyfrifon, wedi'i datgomisiynu.<br>Am weddill 2023-24, defnyddir model taenlen Excel i gofnodi colledion, taliadau arbennig ac i gyfrifo balansau diwedd blwyddyn.<br>Mae risg bod y trafodion a'r balansau sy'n gysylltiedig â cholledion a thaliadau arbennig yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol oherwydd:<br>• nad yw trosglwyddo data rhwng system LaSPaR a'r model Excel yn gyflawn ac yn gywir; a/neu<br>• mae’r model Excel wedi camgyfrif balansau oherwydd gwallau taenlen/modelu a/neu gofnodi data yn anghywir. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi cyflawnrwydd a chywirdeb trosglwyddo data o'r system LaSPaR i'r taenlenni Excel;<br>• ystyried dyluniad a gweithredu rheolaethau (os oes rhai) sydd ar waith i liniaru gwallau;<br>• adolygu'r daenlen ddiwedd blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw wallau na materion arwyddocaol wrth lunio ffigurau ar gyfer y cyfrifon;<br>• adolygu trafodiadau yn ôl i dystiolaeth ategol (e.e. adroddiadau Cwantwm) ar sail samplau. | Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gwblhawyd. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Bernir bod rhai o'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, megis partïon cysylltiedig a'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol, yn berthnasol yn ôl eu natur, gyda lefel llawer is o berthnasedd. Felly, mae'r datgeliadau hyn yn eu hanfod yn dueddol o gael eu camddatgan yn berthnasol. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• archwilio'r holl gofnodion yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol i wirio eu bod yn berthnasol gywir, a bod y gydnabyddiaeth ariannol wedi'i thalu ar y lefelau cymeradwy;<br>• gwirhau fod yr holl ddatganiadau wedi'u llofnodi ac yn angenrheidiol wedi'u derbyn, eu gwerthuso a'u datgelu'n briodol ac yn gywir. | Nododd ein gwaith yn y maes hwn rai materion yn ymwneud â phartïon cysylltiedig a'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol. Adroddwyd am y rhain i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon cyn i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo. |
| Yn y ddau archwiliad blaenorol, nodwyd materion ynghylch dilysu bodolaeth asedau nad ydynt yn gyfredol a gedwir ar y fantolen, yn enwedig y rhai a gedwir ar Werth Net ar Bapur o ddim. Felly, mae risg bod y fantolen yn cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. | Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal profion i wirio bodolaeth asedau ar y fantolen. | Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gwblhawyd. |

| Risg archwilio | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Caiff darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn eu mesur fel yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaethau presennol.<br>Oherwydd lefel yr amcangyfrif sy'n gysylltiedig â chyfrifo darpariaethau, mae risg bod darpariaethau'n agored i gael eu diystyru gan reolwyr.<br>Nododd archwiliad datganiadau ariannol 2022-23 gam-ddosbarthu rhywfaint o ddarpariaethau a balansau atebolrwydd wrth gefn. Felly, mae hwn yn faes risg archwilio. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb y balansau hyn;<br>• adolygu'r amcangyfrifon ar gyfer tuedd;<br>• profi priodoldeb dosbarthiad balansau. | Ni chododd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gwblhawyd. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.